

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, S. Sivagnanam, M.R. Wilkinson E. Williams and M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley ac R. Godfrey.

C17 CYHOEDDIAD –

Croesawodd yr Arweinydd yr holl bartïon i gyfarfod y Cabinet, ac atgoffa'r Aelodau a'r Swyddogion fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio, ac y byddai'n cael ei uwchlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Dywedodd hefyd fod mis wedi mynd heibio ers penodi Cabinet newydd Cyngor Bro Morgannwg. Yn y cyfarfod cyntaf ar 9 Mehefin 2022, roedd y Cabinet wedi ystyried adroddiadau ar yr argyfwng costau byw y mae llawer o breswylwyr yn ei wynebu ym Mro Morgannwg. Yng nghyfarfod heddiw byddai materion cymunedol yn cael eu hystyried, fel teithio llesol a chynaliadwy, addysg a gweledigaeth y dyfodol ar gyfer manau agored.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd y byddai eitem frys yn cael ei chyflwyno er ystyriaeth gan y Cabinet, ynghylch Cronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU o dan eitemau ychwanegol 10(i) ac 11(i) ar yr agenda.

C18 YMDDIHEURIAD –

Derbyniwyd hwn oddi wrth y Cynghorydd G. John.

C19 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

C20 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

C21 DEFNYDD O BWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Cabinet ynghylch y Pwerau Argyfwng a weithredwyd gan y Prif Weithredwr ers adroddiad diwethaf 11 Ebrill, 2022.

Roedd Cyfansoddiad y Cyngor ar dudalen 317 (pwerau dirprwyedig) yn nodi:

1. Pŵer i weithredu, ar ôl ymgynghori ag Aelod priodol y Cabinet, ac mewn achosion lle byddai'r Cyngor yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ymrwymiadau ariannol yn unig, yr Arweinydd/Arweinwyr, Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog priodol, mewn perthynas ag unrhyw fater lle, yn ei farn ef:

(a) mae angen gweithredu ar unwaith; a

(b) nad oes cyfiawnhad dros gynnal cyfarfod arbennig o'r corff a fyddai fel arfer yn ystyried y mater, neu fod cymaint o frys neu argyfwng, fel nad oes amser i gynnal cyfarfod o'r fath; rhoi adroddiad dilynol i'r Cabinet neu'r Cyngor, fel bo'n briodol, ar y pwerau dirprwyedig hynny a ddefnyddiwyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams yn benodol at Gynllun Rheoli Risg Llifogydd Llanfaes, a dywedodd ei fod yn dda gweld y mater yn cael ei symud ymlaen.

Gan fod prisiau rhai nwyddau ar gynnydd ar hyn o bryd, roedd hi'n bwysig deall bod Pwerau Argyfwng yn aml yn cael eu defnyddio i sicrhau'r gwerth gorau am arian, ac osgoi gorfod aildendro mewn amgylchedd ariannol sy'n newid o hyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at dendr a oedd yn ymwneud â'r Strategaeth Lleihau Ynni Goleuadau Stryd yn bwysig, er mwyn sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor ond hefyd er mwyn mynd i'r afael â'r newid hinsawdd. Cyfeiriodd ymhellach at y Fframwaith Cynnwys, Gwasanaethu, Gosod, Cynnal a Thrwsio Gosodiadau Trydanol 2022-25.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng gan y Prif Weithredwr.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu'r Cabinet.

C22 YMATEB DRAFFT I YMGYNGHORIAD CANLLAWIAU A CHYFARWYDDIADAU STATUDOL LLYWODRAETH CYMRU A WNAED O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000, MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 A DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf 2021) yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i hyrwyddo amrywiaeth, ymglymiad a chyfranogiad mewn Cyngorau Sir a Bwrdeistref Sirol (Prif Gyngorau).

Roedd Deddf 2021 yn creu darpariaeth annibynnol ar gyfer rhai o'r mesurau hynny, ond hefyd yn diwygio, weithiau i raddau helaeth, deddfwriaeth flaenorol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000) a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Mesur 2011).

Cafodd canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan y Deddfau hynny ar faterion fel trefniadau Gweithrediaeth, cyfansoddiadau, craffu, hyfforddiant a datblygiad i Aelodau etholedig, ac amseriad cyfarfodydd, eu cyhoeddi sawl blwyddyn yn ôl, ac nid oeddent bellach yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol yn Neddf 2021. Nid oeddent ychwaith yn cydnabod newid deddfwriaethol ehangach fel Deddf Cydraddoldeb 2010 na Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) na newidiadau eraill yn Neddf 2021 ei hun fel creu Cydbwyllgorau Corfforaethol, a'r ddyletswydd a osodwyd ar Brif Gyngorau i barhau i adolygu eu perfformiad drwy ddefnyddio hunanasesiadau ac asesiadau gan baneli, ac adrodd ar hynny.

Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer ymateb y Cyngor (Atodiad A) i'r ymgynghoriad diweddaraf ynghylch Canllawiau a Chyfarwyddiadau Statudol a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur 2011 a Deddf 2021.

Dywedodd yr Arweinydd mai Cyngor Bro Morgannwg oedd un o ddau Gyngor yn unig yng Nghymru lle'r oedd y gynrychiolaeth yn cynnwys cydbwysedd o ran y rhywiau. Gobeithiai y byddai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol yn rhoi ystyriaeth lawn i'r adroddiad. Cyfeiriodd yr Arweinydd at Gwestiwn 12 o Atodiad A a oedd yn bwysig er mwyn i'r gynrychiolaeth adlewyrchu'r cymunedau.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi a chytuno ar gynnwys yr adroddiad a'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad (wedi'i gynnwys yn Atodiad A), i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn amodol ar eu cyfeirio i'w hystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

(2) Y dylai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac Atodiad A, ac yn cyfeirio unrhyw sylwadau'n ôl er ystyriaeth gan y Cabinet.

(3) Os na fydd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol unrhyw sylwadau, y dylid cytuno i gyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad.

(4) Y dylid rhoi awdurdod, yn amodol ar Benderfyniadau (1), (2) a (3), i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol gyflwyno ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad terfyn, sef 22 Gorffennaf, 2022.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi'r Cyngor i ymateb i'r Ymgynghoriad ar Ganllawiau a Chyfarwyddiadau Statudol a luniwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(2) Fel bo modd gofyn barn y Pwyllgor Craffu cyn cyflwyno.

(3) I'w gwneud hi'n bosibl i gytuno ar yr argymhellion, heb eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet os yw'n briodol.

(4) Fel bo modd cyflwyno'r ymateb erbyn 22 Gorffennaf, 2022.

C23 DIWEDDARIAD AR FAP RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL 2021 WEDI'I GYFLWYNO I LYWODRAETH CYMRU (DA/LC) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Roedd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ddyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru i fapio, cynllunio ar gyfer, gwella a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Cymeradwywyd Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol Cychwynnol (ATNMs) gan Lywodraeth Cymru (LIC) ym mis Tachwedd 2017 ac mae'n rhaid cyflwyno ATNMs wedi'u diweddarau i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd.

Bu Sustrans Cymru Cyf yn cynorthwyo swyddogion y Cyngor i archwilio llwybrau Teithio Llesol a chynhyrchu llwybrau'r dyfodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar yr ATNM rhwng 2 Awst a 24 Hydref, 2021.

Gwnaed tri newid i'r ATNM yn dilyn yr ymgynghoriad, a gytunwyd gan y Cabinet yn dilyn ystyriaeth gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio y Cyngor.

Cyflwynwyd ATNM cymeradwy'r Cyngor i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ym mis Ionawr 2022, ac gofynnodd LIC am bedwar newid hanfodol er mwyn sicrhau cydlyniant y rhwydwaith.

Nod yr adroddiad oedd hysbysu'r Cabinet ynghylch yr adrannau yr oedd angen eu hychwanegu at yr ATNM er mwyn i LIC gymeradwyo'r ddogfen derfynol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod manylion am y pedwar sylw wedi'u cynnwys ym mharagraffau 2.3 i 2.6 yr adroddiad. Cyfeiriodd hefyd at fideo a oedd ar gael ar wefan Bro Morgannwg a oedd yn trafod teithio llesol yn fanylach.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo ychwanegu pedair ardal at y Map Rhwydwaith Teithio Llesol y cytunwyd arno'n flaenorol, a fyddai'n caniatáu iddo gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

(2) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Lleoedd Cynaliadwy, gytuno ar unrhyw fân ychwanegiadau eraill i'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol dros y tair blynedd nesaf.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Map Rhwydwaith Teithio Llesol diwygiedig.

(2) Caniatáu unrhyw fân ychwanegiadau i'r map yn y dyfodol, fel bo'r angen.

C24 CYFNEWIDFA DRAFNIDIAETH DOCIAU'R BARRI - ACHOS BUSNES A RHAGLEN GYFLAWNI CAM TRI WELTAG (DA/LC) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am gynnydd Cynllun Cyfnewidfa Drafnidiaeth Dociau'r Barri ac yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer astudiaeth Achos Buses |Cam Tri i Gam Tri Astudiaeth Achos Busnes WelTAG.

Roedd yr astudiaeth Cam Tri wedi cael ei chwblhau gan ymgynghorwyr technegol Amey, a chynigiwyd y dylid bwrw ymlaen ag Opsiwn 2 yr astudiaeth. Roedd Opsiwn 2 yn amlinellu uwchgynllun ar gyfer cyfnewidfa a datblygiad cysylltiedig, i'r gogledd ac i'r de o'r brif linell yng Ngorsaf Dociau'r Barri. Roedd yr adroddiad yn gofyn am awdurdod i symud ymlaen â rhan o'r opsiwn hwnnw ar ffurf Cam 1 o'r cynllun mwy a oedd i'w gyflawni, ac yn unol â'r cyllid cyfredol sydd ar gael i'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn disgrifio'r trefniadau cyllido cyfredol ar gyfer y gwaith cyfalaf a ffi ymgynghori er mwyn cyflawni'r Cynllun, ac yn cynghori ynghylch y broses gaffael a'r contract dewisiadau gwaith.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i awdurdod priodol gael ei ddirprwyo i swyddogion ar y cyd â'r Aelod Cabinet perthnasol i ganiatáu dyfarnu contract gwaith y dilyn proses dendro a dyfarnu cyllid o Gronfeydd Prifddinas-ranbarth Caerdydd a Thrafnidiaeth Leol (cyllid trafndiaeth Llywodraeth Cymru).

Gofynnwyd hefyd am bwerau dirprwyo hefyd i gytuno ar ddyfarniadau cyllid o'r fath, ac i ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf ar ôl cytuno ar y dyfarniadau hynny. Gofynnwyd am

gael dirprwyo mwy o bwerau fel bo modd llofnodi'r contract gwaith, ac fel bo modd rhoi trefniadau rheoli mewnol ar waith a chyflawni gwaith Cam 1.

Dyweddod yr Arweinydd fod yr adroddiad yn un pwysig, ochr yn ochr ag adroddiadau eraill a drafodai ddarparu opsiynau trafndiaeth gynaliadwy o amgylch un canolbwynt yng Ngorsaf Dociau'r Barri, fel pwynt teithio allweddol i lawer o gymunedau o fewn y Barri, yn enwedig o'i ystyried mewn cysylltiad â chynigion Trafndiaeth Cymru ar gyfer tocynnau integredig i fysau a threnau a chyswllt i opsiynau teithio llesol.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

- (1) Cytuno ar astudiaeth WEITAG Cam Tri yn nodi'r Achos Busnes llawn ar gyfer cynllun Cyfnewidfa Dociau'r Barri.
- (2) Rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fwrw ymlaen ag Opsiwn 2 a ffefrir yn Adroddiad Cam 3 WeITAG.
- (3) Rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyfer Lleoedd Cynaliadwy, a Phennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 y Cyngor, dendro Cam 1 o'r Opsiwn 2 a ffefrir.
- (4) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 a'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyfer Lleoedd Cynaliadwy, i ddyfarnu contract ar gyfer Cam 1 y Cynllun i'r cynigydd mwyaf manteisiol, ar yr amod bod cyllid priodol yn ei le a bod agweddau eraill wedi'u cymeradwyo.
- (5) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd negodi telerau'r contract, cwblhau trefniadau contract a gweithredu'r dogfennau contract cysylltiedig gyda'r contractwr a ffefrir yn sgil y broses dendro.
- (6) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 o ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf adlewyrchu'r cyllid allanol ar gyfer y cynllun ar ôl derbyn y llythyrau dyfarnu cyllid oddi wrth Brifddinas-ranbarth Caerdydd a Chyngor Merthyr, sy'n gweithredu fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer y rhaglen Metro a Mwy (Y Gronfa Drafndiaeth Leol).
- (7) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, mewn ymgynghoriad â'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ar gyfer Lleoedd Cynaliadwy, y Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151, i ymrwmo i gontract priodol â darparwydd gwasanaethau Cerbydau Trydan mewn perthynas ag unrhyw seilwaith gwefru a ddarperir yn rhan o gynllun Cyfnewidfa Dociau'r Barri.

Rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cafodd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyllido cynlluniau trafndiaeth eu nodi yng Nghanllawiau 2017 WeITAG. Roedd y Canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu Achos Busnes dilys ar gyfer cynlluniau newydd, cyn cytuno ar gyllid i gyflawni'r cynlluniau hynny.
- (2) Er mwyn nodi a chytuno ar y cynllun a ffefrir.
- (3) I awdurdodi proses dendro Cam 1.
- (4) I awdurdodi'r penderfyniad i ddyfarnu contract ac ystyried pa mor fuan y mae'r dyddiadau cau ar gyfer cyllid allanol.
- (5) Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol gwblhau trefniadau'r contract.
- (6) Galluogi diweddarau'r Rhaglen Gyfalaf i hwyluso gwariant ar y cynllun.
- (7) Fel bo modd cydgysylltu cyflenwr cerbydau trydan yn rhan o'r cynllun. Roedd Prifddinas-ranbarth Caerdydd wedi bod yn bwrw ymlaen â'r pwyntiau gwefru ar gyfer gwasanaethau tacsï ar draws y rhanbarth, ac roedd contract wedi'i drefnu â chyflenwr ar gyfer y lleoliadau hynny. Roedd hi'n ymddangos yn gyfle synhwyrol i integreiddio darparwyr gwasanaeth, ond roedd angen awdurdod i ymrwymo i gontractau priodol.

C25 YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I DROSGLWYDDO CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL YN YSGOL GYNRADD LLANDOCHAU I YSGOL Y DDRAIG (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y cynnig i adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAB) yn Ysgol Gynradd Llandochau yn barhaol i Ysgol Y Ddraig o fis Ionawr 2023.

Cyflwynwyd y cynnig o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Roedd Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir mewn ysgolion, a phe bai'n cael ei dderbyn gan y Cabinet, byddai'r ymgynghoriad statudol perthnasol yn cael ei gynnal arno, fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad.

Symudwyd ddarpariaeth y CAB yn Ysgol Gynradd Llandochau dros dro i Ysgol y Ddraig yn ystod pandemig COVID-19 i sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol a chynnal amgylchedd dysgu diogel.

Ymchwiliodd y Cyngor i'r opsiynau a oedd ar gael i gynnig y ddarpariaeth o safle ysgol arall ac ynddo ddigon o le i ganiatáu pellter cymdeithasol, system awyru dda, thoiledau diogel i'w defnyddio gan y disgyblion. Cafwyd hyd i'r lle hwnnw yn Ysgol Gynradd y Ddraig yng ngorllewin Bro Morgannwg.

Trefniant dros dro a fyddai'n cael ei adolygu'n rheolaidd oedd yr hyn a gytunwyd, gan anelu i symud y ganolfan yn ôl i Ysgol Gynradd Llandochau wedi i gyfyngiadau COVID iacio.

Roedd swyddogion awdurdod lleol o'r Gwasanaethau Adeiladu wedi cynnal arolwg o'r adeiladau yn Llandochau ac wedi dod i'r casgliad y byddai angen gwneud gwaith ailfodelu helaeth ar lawr gwaelod yr ysgol er mwyn creu gofod ymarferol ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol.

Yn ogystal â hynny, oherwydd y cyfyngiadau ar y safle, ni fyddai unrhyw waith modelu'n creu amgylchedd o'r un safon ag y gellid ei gynnig yn Ysgol y Ddraig, a oedd yn gyfleuster newydd ei adeiladu a chanddo'r holl fanteision a gysylltir ag Ysgol yr 21ain Ganrif.

Roedd gan y Cynghorydd Williams ddiddordeb mewn weld canlyniad yr ymgynghoriad, ac edrychai ymlaen at y drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig i drosglwyddo'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAB) yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol Y Ddraig o fis Ionawr 2023.

(2) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn rhan o'r ymarfer ymgynghori arfaethedig.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ceisio awdurdod y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar y cynnig i drosglwyddo'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (SRB) yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol Y Ddraig o fis Ionawr 2023.

(2) Sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar y cynigion.

C26 TRWYDDEDAU MASNACHU PRIFFYRDD DROS DRO (WCA) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –

Roedd gan y Cyngor bolisi manwl ar gyfer rhoi trwyddedau masnachu dros dro i fusnesau a oedd yn dymuno masnachu ar y briffordd gyhoeddus.

Roedd y rhan fwyaf o drwyddedau masnachu ar y briffordd yn geisiadau am lefydd ar droedffyrdd cyhoeddus, ac nid oedd unrhyw broblemau cyfredol yn gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer y trwyddedau hyn. Roedd trwyddedau dros dro ar gyfer masnachu ar y briffordd hefyd yn cael eu rhoi ar gyfer Parklets. Unedau masnachu awyr agored bach a phwrpasol oedd Parklets, a brynwyd i helpu busnesau ym

Mhenarth, fel prosiect peilot yn ystod y pandemig, ond a osodwyd ar y ffordd gerbydau weithredol. Roedd llwyddiant yr unedau hyn, neu fel arall, yn cael ei asesu ar hyn o bryd, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar hynny'n ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

Roedd yr adroddiad yn ystyried yr opsiynau masnachu hirdymor a materion yn gysylltiedig â'r parth cyhoeddus ar ardal Esplanade Penarth, a goblygiadau hynny o ran y 3 busnes yr oedd yn ofynnol iddynt ar hyn o bryd gael gwared â'u trefniadau masnachu awyr agored o'r briffordd yn y lleoliad hwn ar 30 Mehefin, 2022, a sgil-ffaith hynny ar 1 busnes yn Ynys y Barri, a fyddai'n dioddef effeithiau tebyg.

Roedd gwaith sylweddol ar dir y cyhoedd wedi'i wneud ar Esplanade, Pier a Phafiliwn Pier Penarth ers 2021, ac roedd hi'n bwysig bod pob penderfyniad yn gysylltiedig â gweithredu tir yr oedd y Cyngor yn ei reoli yn y lleoliad hwn, yn y presennol a'r dyfodol, yn cael ei ystyried yn ofalus, er mwyn sicrhau bod gwerth cyhoeddus llawn y gwaith a gyflawnwyd eisoes yn cael ei gadw, a bod yr ardal yn parhau i ffynnu fel cyrchfan i ymwelwyr ac fel lle deniadol i fyw ynddo.

Roedd y busnesau a oedd ar hyn o bryd yn elwa ar y trwyddedau masnachu 'ar y briffordd' ar yr Esplanade ac yn Ynys y Barri oll wedi dweud eu bod yn dymuno cael trwyddedau newydd. Roedd pob un wedi derbyn rhybudd y byddai eu trwyddedau'n dod i ben ar 30 Mehefin, 2022.

Roedd gan y cyhoedd ddiddordeb sylweddol yn nhrwyddedau masnachu'r Esplanade, gyda'r safbwyntiau'n amrywio rhwng rhai a ystyriai fod y trefniadau masnachu al fresco yn llwyddiannus a'r rhai a'u hystyriai'n niwsans.

Oherwydd pwysigrwydd yr ardal a chan fod y Cyngor yn dymuno parhau i'w datblygu fel lleoliad preswyl a chyrchfan o ansawdd uchel i ymwelwyr, cynigiwyd y dylid cynnal ymarfer cynhwysfawr i ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, wedi i'r adroddiad gael ei ystyried er mwyn sefydlu barn yr holl bartïon â buddiant yn y trefniadau tymor hwy ar gyfer tir cyhoeddus, masnachu a thrafnidiaeth gysylltiedig.

Ar ben hynny, yn ystod y cyfnod ymgynghori argymhellwyd y dylid caniatáu i'r trefniadau masnachu presennol ar yr Esplanade ac yn Ynys y Barri barhau ar drwydded dros dro, fesul mis, gydag amodau penodol.

Oherwydd y cyfyngiadau amser rhwng yr adroddiad a dyddiad dod i ben y trwyddedau masnachu cyfredol ar 30 Mehefin, 2022, gofynnwyd am gael defnyddio'r 'weithdrefn frys' ar gyfer y sefyllfa fasnachu.

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet y byddai'r ymgynghoriad yn ceisio cynnwys safbwyntiau trigolion a busnesau lleol, ac ymwelwyr â'r ardal.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y Cyngor eisiau bod yn gydweithredol, a siarad â'r holl randdeiliaid dan sylw yn rhan o'r ymgynghoriad. Roedd Grŵp Strydoedd Byw Penarth wedi cynnal darlithoedd yn ddiweddar yn trafod y cysyniad o'r ffordd y dylai Penarth edrych yn eu barn nhw, a byddai'r ymgynghoriad yn creu trafodaethau tebyg. Roedd y Cyngor wedi bod yn awyddus i gefnogi busnes yn ystod Covid fel eu bod yn gallu parhau i weithredu a gwnaed newidiadau i'r gofod cyhoeddus ar yr Esplanade ac yng Nghanol Tref Penarth gan ddefnyddio pwerau

brys o ganlyniad i'r pandemig, ond heb ymgynghori ar y pryd. Roedd hi bellach yn bryd i'r Cyngor ymgynghori ar sut y byddai'r ardaloedd hynny'n edrych o hyn allan. Anogodd yr holl bartïon â buddiant i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ar ôl iddo gael ei lansio, i ymgysylltu a mynegi barn, neu gysylltu ag Aelodau lleol eu ward. Dywedodd y Cyngorydd Wilson fod gan y Cyngor feddwl agored am ganlyniad yr ymgynghoriad ac y byddai'n gwrandao ar bobl Penarth, busnesau lleol ac ymwelwyr â'r ardal. Gofynnodd hefyd am gael cynnwys Argymhelliad ychwanegol, sef cynnwys Aelodau lleol, ac yn wir yr holl Aelodau, yn yr ymgynghoriad, neu ymgysylltu â'r ymgynghoriad yn rhan o'r Pwyllgor Craffu, a chytunwyd â hynny.

Ychwanegodd yr Arweinydd os oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn dymuno cofrestru i siarad ym Mhwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a chofnodi eu barn, fod croeso iddynt wneud hynny. Dywedodd ei bod wedi derbyn negeseuon e-bost ar y mater eisoes ond teimlai nad oedd mor syml â dewis rhwng y naill opsiwn neu'r llall, ac y byddai ymgynghoriad cynhwysfawr yn fodd i ganfod datrysiad a fyddai'n briodol i'r dref.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo, a chan gynnwys Penderfyniad ychwanegol (9)

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi'r sefyllfa bresennol o ran trwyddedau masnachu ar y briffordd sy'n weithredol ar Esplanade Penarth ac yn Ynys y Barri.
- (2) Cymeradwyo'r bwriad i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai ddefnyddio ei bwerau dirprwyedig, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i gynnig trwyddedau newydd i fasnachu ar y briffordd, ar delerau ac amodau tebyg i'r rhai a gyhoeddwyd yn flaenorol, i'r busnesau canlynol: Casa de Magaritas, Sundowners Champagne Bar, Beachcliff Fish and Chips and Bar, Enzo (Ynys y Barri) cyn i'r trwyddedau cyfredol ddod i ben ar 30 Mehefin, 2022.
- (3) Y dylid, yn unol â Phenderfyniad (2), rhoi'r trwyddedau dros dro uchod fesul mis o 1 Gorffennaf, 2022 a chan ddisgwyl canlyniad y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu y cyfeiriwyd ato ym Mhenderfyniad (5).
- (4) Y dylai Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai allu pennu ansawdd a dyluniad yr holl ddodrefn stryd a ddefnyddir yn y mannau trwyddedig dros gyfnod y drwydded dros dro ar gyfer y pedwar busnes dan sylw.
- (5) Y dylid dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, y Gyfarwyddwr Lle, yr Arweinydd, a'r Aelodau Cabinet ar gyfer Lleuedd Cynaliadwy, Gwasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu a gwasanaethau Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol, i bennu manylion, a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar, yr opsiynau tymor hwy ar gyfer tir cyhoeddus, trafndiaeth a masnachu yn ardal Esplanade

Penarth. Roedd manylion y rhain yn unol â'r amlinelliad a nodwyd ym mharagraff 2.16 yr adroddiad.

(6) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w ystyried ar ddiwedd yr ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd erbyn diwedd mis Ebrill 2023 fan bellaf.

(7) Y dylid cyfeirio'r adroddiad i sylw Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio er mwyn i farn y Pwyllgor hwnnw gael ei hystyried yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori.

(8) Y dylid defnyddio'r weithdrefn penderfyniadau brys a nodir yn adran 15.14 o gyfansoddiad y Cyngor yn gysylltiedig â Phenderfyniadau (2)-(4) uchod.

(9) Y dylai'r ymarfer ymgynghori gynnwys Aelodau Lleol ac unrhyw Aelodau eraill o'r Cyngor hwnnw a fyddai'n dymuno cymryd rhan.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ynghylch y sefyllfa bresennol.

(2) Galluogi'r busnesau presennol i barhau i weithredu, a hynny mewn modd a reolir yn briodol, tra bo'r ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori yn cael ei gynnal.

(3) Caniatáu digon o amser i gwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus heb orfod cyfeirio'r trwyddedau neilltuol hyn i sylw'r Cabinet eto.

(4) Sicrhau y gellir rheoli gweithrediad neu olwg yr ardaloedd trwyddedig hyn yn gywir ac y gellir datrys unrhyw broblemau'n gyflym.

(5) Caniatáu dechrau ymarfer cynhwysfawr i ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, gyda mewnbwn gan y swyddogion perthnasol a'r aelodau etholedig ynghylch union natur yr ymarfer hwnnw.

(6) Caniatáu i'r Cabinet wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol ardal yr Esplanade gan fanteisio ar safbwyntiau'r holl bartïon â buddiant.

(7) I ystyried barn Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

(8) Er mwyn caniatáu cynnig a rheoleiddio'r trwyddedau newydd o 1 Gorffennaf, 2022.

(9) Er mwyn casglu barn yr holl Aelodau fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Pwyllgor Craffu.

C27 MATER YR OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EI FOD YN FATER BRYS –

PENDERFYNWYD – Ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y Cofnodion.

C28 CRONFA CODI'R GWASTAD (CYLCH 2) A CHRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (DL/SP) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) – (Mater a bennwyd yn fater brys gan y Cadeirydd gan fod angen i'r Cabinet ystyried y cynigion cyfredol ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) cyn y dyddiad cau, sef 6 Gorffennaf, 2022 ac ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU cyn dyddiad cau'r gronfa honno, sef 1 Awst, 2022.)

Dywedodd yr Arweinydd y byddai adroddiad Rhan II hefyd yn cael ei gynnwys ar yr agenda'n ddiweddarach, ac y byddai'n ystyried agweddau masnachol ac economaidd cyfrinachol y mater.

Roedd cynnwys adroddiad y Cabinet yn sensitif o ran amser oherwydd y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) a'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Ers adroddiad diwethaf y Cabinet (14 Mawrth, 2022) mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer y ddwy ffrwd ariannu ac wedi diweddarau'r Fynegai o Leoedd â Blaenoriaeth ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2). Roedd ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg bellach yn ardal categori 1 (ar ôl bod yn ardal categori 2 yn flaenorol). Roedd Categori 1 yn cynrychioli'r lefel uchaf o angen a nodir ac yn un o bedwar maen prawf wrth asesu ceisiadau.

Ers cyhoeddi canllawiau ar gyfer proses ymgeisio Cronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU, bu swyddogion yn gweithio'n gyflym gydag ymgynghorwyr (Rothwell) a chyda thirfeddianwyr perthnasol a sefydliadau partner i ddatblygu cynigion i'w hystyried gan y corff cyllido. .

Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo cais i'r Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) a oedd ar ddod a'r Cynllun Buddsoddi yn gysylltiedig â dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a amlinellwyd yn Adran 2 yr adroddiad (a chyflawni hynny) yn amodol ar ddarpariaethau deddfwriaethol, caniatadau statudol a chyllid.

Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet ddirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i cymryd y camau angenrheidiol er mwyn bodloni'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau.

Byddai'r adroddiadau nesaf yn cael eu cyflwyno gerbron y Cabinet i'w hystyried fel bo'n briodol.

O ran y Gronfa Lefelu i Fyny, dywedodd yr Arweinydd fod y prosiectau a ddewiswyd wedi'u dewis yn benodol oherwydd eu bod yn cyd-fynd â meini prawf Llywodraeth y DU, ond hefyd â nodau cyffredinol y Cyngor ar gyfer adfywio'r Barri, a thrafodwyd y cynigion a gyflwynwyd ym mharagraff 2.10. i 2.15 o'r adroddiad.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 fod yr adroddiad wedi'i lunio o fewn graddfeydd amser heriol er mwyn cyflawni'r gofynion diwydrwydd dyladwy angenrheidiol. Roedd swyddogion Cyllid wedi gweithio'n agos gydag adrannau eraill y Cyngor a chynghorwyr allanol i fynd i'r afael â risg ariannol, a byddai diwydrwydd dyladwy yn parhau wrth i'r broses fynd rhagddi i sicrhau bod yr achos ariannol yn parhau i gael ei fonitro yn ystod amgylchiadau economaidd heriol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Lle at y Cynllun Buddsoddi Lleol fel rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a fyddai'n cael ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel y partner rhanbarthol gyda chyfrifoldeb dros y gronfa,

Dywedodd yr Arweinydd hefyd fod y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gronfa ar gyfer holl ardaloedd Bro Morgannwg, tra bo Cronfa Codi'r Gwastad yn canolbwyntio ar adfywio'r Barri.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi a chymeradwyo'r cais i'r Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) a oedd ar ddod a'r Cynllun Buddsoddi yn gysylltiedig â dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn amodol ar y darpariaethau deddfwriaethol priodol, caniatadau statudol a chyllid.

(2) Cadarnhau'r Cyfarwyddwr Lle oedd fel yr Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer y cais i Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2).

(3) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet ar gyfer Perfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) gyflwyno cais am grant a pheynnau cyllid cysylltiedig, gan gynnwys cyfraniadau o ddwy ffynhonnell a nodwyd i ddibenion adfywio ym mharagraffau 4.2 -4.4 (cynhwysol) yr adroddiad hwn, ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) ar ran Cyngor Bro Morgannwg.

(4) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet ar gyfer Perfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i negodi a chytuno ar y telerau â'r tiffeddianwyr a'r sefydliadau partner perthnasol ar gyfer y datblygiad, a chyflwyno'r cais i Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2).

(5) Y dylid adrodd yn ôl wrth y Cabinet ymhen amser ar ymateb Llywodraeth y DU i'r cais i'r Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2), ynghyd â threfniadau manylach ar gyfer rheoli cyllideb a llywodraethu yn gysylltiedig â chyflawni unrhyw gais llwyddiannus.

(6) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet ar gyfer Perfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i gyflwyno a chymryd yr holl gamau angenrheidiol i gwblhau Cynllun Buddsoddi rhanbarthol (De Ddwyrain Cymru) yn derfynol yn gysylltiedig â dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar ran Cyngor Bro Morgannwg.

(7) Y dylid adrodd yn ôl wrth y Cabinet ymhen amser ar y Cynllun Buddsoddi rhanbarthol terfynol sy'n gysylltiedig â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU, a hefyd ar drefniadau manylach ar gyfer rheoli cyllideb a llywodraethu yn gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Buddsoddi yn lleol.

(8) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet ar gyfer Perfformiad ac Adnoddau, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gytuno ar delerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

(9) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

(10) Awdurdodi'r defnydd o baragraff 15.14.2(ii) yng Nghyfansoddiad y Cyngor (gweithdrefn penderfyniadau brys) mewn perthynas â'r argymhellion uchod.

Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Hysbysu'r Cabinet ynghylch y sefyllfa bresennol a chael cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer cais y Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) sydd ar ddod a'r Cynllun Buddsoddi sy'n gysylltiedig â dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a chyflawni hynny'n amodol ar ddarpariaethau deddfwriaethol, caniatadau statudol a chyllid.

(2) Er mwyn bodloni gofynion cymhwysra'r cais.

(3) I gael awdurdod i gyflwyno cais i Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) yn unol â'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sef 6 Gorffennaf, 2022.

(4) Cael awdurdod i negodi a chytuno ar delerau â thirfeddianwyr perthnasol a sefydliadau partner er mwyn datblygu a chyflwyno cais i Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2).

- (5) Adrodd yn ôl i'r Cabinet ar lwyddiant neu fethiant y cais i Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) ac unrhyw gyngor a gafwyd gan y corff cyllido.
- (6) I gael awdurdod i gyflwyno a chwblhau Cynllun Buddsoddi yn gysylltiedig â dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU erbyn y dyddiad cyflwyno, sef 1 Awst, 2022.
- (7) I adrodd yn ôl i'r Cabinet ar ddatblygiad y Cynllun Buddsoddi sy'n gysylltiedig â dyraniad cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac unrhyw gyngor a geir gan y corff cyllido a'r awdurdod arweiniol,
- (8) Cael awdurdod i gytuno ar delerau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
- (9) Cael awdurdod i baratoi, cwblhau a gweithredu'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
- (10) I gydnabod y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno.

C29 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C30 CRONFA CODI'R GWASTAD (CYLCH 2) A CHRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (DL/SP) (GWYBODAETH ESEMPT – PARAGRAFFAU 14 AC 16) (CRAFFU – YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) – **(Mater a bennwyd yn fater brys gan y Cadeirydd gan fod angen i'r Cabinet ystyried y cynigion cyfredol ar gyfer Cronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) cyn y dyddiad cau, sef 6 Gorffennaf, 2022 ac ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU cyn dyddiad cau'r gronfa honno, sef 1 Awst, 2022.)**

Roedd cynnwys adroddiad y Cabinet yn sensitif o ran amser oherwydd y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i Gronfa Codi'r Gwastad (Cylch 2) a'r Cynllun Buddsoddi ar gyfer dyraniad cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyngor cychwynnol a ddarparwyd gan y cwmni cyfreithiol allanol DWF (Atodiad 1) a'r materion y byddai angen ymdrin â nhw mewn perthynas ag elfen rheoli cymhorthdal y cais, ar yr amod bod y cais yn cydymffurfio, ac wrth fwrw ymlaen â phrosiectau cydrannol y cais.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r materion y byddai angen i Bennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 y Cyngor eu hystyried a rhoi datganiad arnynt.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Cyfreithiol, pe byddai'r cais yn llwyddiannus ar ôl y cam cyntaf, mai'r cam nesaf fyddai cwblhau'r gwaith perthnasol er mwyn bodloni'r Egwyddorion Rheoli Cymorthdaliadau.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r rhan fwyaf o Gyngorau sy'n cyflwyno ceisiadau Codi'r Gwastad yn Byddai cyfleoedd i archwilio dichonoldeb ac opsiynau cyfreithiol wrth i'r mater fynd rhagddo. Diolchodd hefyd i'r Swyddogion am y gwaith aruthrol a wnaed i baratoi'r adroddiadau i'w hystyried gan y Cabinet ynghylch agweddau cyfreithiol a materion cyllid.

Roedd hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu yn ei gylch.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, a'r holl faterion a'r goblygiadau cysylltiedig

PENDERFYNWYD – Nodi'r cyngor cychwynnol ynghylch rheoli cymorthdaliadau a'r materion i'w symud ymlaen.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu'r Cabinet ynghylch y cyngor cychwynnol ar reoli cymorthdaliadau a'r materion sydd i'w datrys.